

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Brynteg  
(Rhydaman), Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 10 Chwefror 2026

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mai 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	18
4.	Y camau nesaf .....	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	23
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	24

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg (Rhydaman), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 10 Chwefror 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi gwybod eu barn i ni am weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom gan gleifion i'w gweld drwy'r adroddiad, ond gan mai nifer bach o ymatebion a gawsom gan staff, ni chawsant eu cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion eu bod yn cael eu clywed, bod eu cwestiynau'n cael eu hateb, a bod y staff yn egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod yr apwyntiadau. Gwelsom fod mesurau ar waith i gefnogi preifatrwydd a chyfrinachedd, gan gynnwys defnyddio ystafell breifat ar gyfer sgysrsiau sensitif, drysau llawdriniaeth solet a ffenestri o wydr barugog.

Gwelsom fod hawliau cleifion yn cael eu cynnal a bod ymdrechion gweithredol ar waith i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisiau cydraddoldeb, cyfrinachedd a dim goddefgarwch ar waith, a disgrifiodd y staff fod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud ar gyfer y cleifion. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cofnodi'r enwau, y rhagenwau, a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion, gan helpu i sicrhau bod eu hawliau unigol yn cael eu parchu.

Dywedodd y cleifion wrthym fod iechyd y geg yn cael ei esbonio'n glir iddynt, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol. Roedd deunyddiau hybu iechyd ar gael yn hwylus. Roedd dogfennau ar gael yn Gymraeg lle bo modd a gwelsom fod trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith, gan gynnwys Language Line ac roedd fformatau amgen ar gael ar gais ac roedd y staff i'w gweld yn defnyddio'r Gymraeg.

Gwelsom hefyd fod prosesau addas i reoli apwyntiadau a brysbennu gofal brys. Er bod cleifion wedi nodi profiadau cymysg wrth gael gafael ar apwyntiadau arferol, roedd yr achosion brys yn cael eu blaenoriaethu'n brydlon drwy slotiau brys dyddiol a system frysennu glir.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da, yn lân ac yn addas i'w dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi cyfarpar aml dro yn gadarn ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel.

Roedd trefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch cyffredinol y practis yn briodol, gan helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y gweithdrefnau hylendid dwylo a rheoli heintiau hefyd yn addas.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r system fonitro sydd ar waith ar gyfer y platiau ffosffor a ddefnyddir ar gyfer pelydrau-X deintyddol. Roedd hefyd angen gwella cofnodion y cleifion er mwyn sicrhau bod darlun cyflawn yn cael ei gadw o'r gofal oedd yn cael ei roi i'r cleifion. O'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, ni allem fod yn sicr bod triniaethau bob amser yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, neu yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael ac roeddent o fewn y dyddiadau defnyddio. Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos bod y personél wedi cael hyfforddiant priodol ar adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i glinigwyr gofnodi meddyginiaethau a bresgripsiynir mewn modd cynhwysfawr.
- Monitro platiau ffosffor pelydr-X yn briodol
- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i gadw'n lân, ac roedd yr holl gyfarpar yn gweithio'n briodol
- Roedd y cleifion yn datblygu drwy lwybrau trin mewnlol ac allanol yn effeithlon
- Roedd y trefniadau diogelu yn drwyadl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom drefniadau llywodraethu effeithiol a oedd yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn gweithio gyda chymysgedd priodol o sgiliau. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau o ran ansawdd a chysondeb y cofnodion a gymerwyd mewn cyfarfodydd staff ffurfiol, er mwyn sicrhau bod trafodaethau, camau gweithredu a phenderfyniadau'n cael eu dogfennu'n gywir.

Er bod y cofnodion staff y gwnaethom edrych arnynt yn gynhwysfawr ar y cyfan ac yn bodloni'r gofynion addas i weithio, gwnaethom nodi bod y gwiriadau geirda cyn cyflogi ar goll ar gyfer rhai aelodau o staff hirsefydlog.

Roedd y prosesau sefydlu yn gadarn, ac roedd rheolwyr y practis yn cefnogi'r staff i gael datblygiad proffesiynol parhaus. Er i ni ganfod dull rhagweithiol o wella ansawdd a oedd yn anelu at ysgogi datblygiad parhaus a sicrhau canlyniadau gwell i'r cleifion, roedd angen i'r practis wella'i archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Amllder a chofnodi cyfarfodydd staff ffurfiol
- Adolygu rhaglen y practis o archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i reoli'r practis yn effeithiol
- Roedd y trefniadau Dyletswydd Gonestrwydd yn gryf ac wedi'u hen sefydlu
- Roedd yr adborth gan gleifion yn cael ei reoli'n briodol.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i holiadur AGIC i gleifion yn gadarnhaol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant gan y practis 'yn dda' neu 'yn dda iawn'.

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd dogfennau gwybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gael i'r cleifion yn y dderbynfa. Roedd hyn yn cael ei lywodraethu gan bolisi gwybodaeth i gleifion, yr oedd copi ohono ar gael mewn ffolder yn y dderbynfa. Roedd datganiad o ddiben y practis a'i daflen wybodaeth i gleifion yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion yn y practis. Nodwyd gennym nad oedd y naill ddogfen na'r llall ar gael ar wefan y practis; gwnaethom godi hyn gyda'r staff a chafodd y ddwy ddogfen eu lanlwytho i'r wefan yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau deintyddol ynghyd ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos lle y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd yr oriau agor a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld yn glir y tu allan i'r practis.

Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod iechyd ei geg wedi cael ei esbonio iddo mewn ffordd yr oedd yn gallu ei deall. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

##### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith gofal iechyd. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol am gleifion yn cael ei rhannu dros y ffôn. Er bod ardal y dderbynfa ac un o'r ardaloedd aros wedi'u cysylltu, ni chlywsom unrhyw sgysiau cyfrinachol yn digwydd. Roedd ystafell rheolwr y practis yn cael ei defnyddio pan oedd angen cynnal sgysiau neu alwadau ffôn cyfrinachol. Roedd gan y practis hefyd ddrysau deintyddfa solet a oedd yn cael

eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau ac roedd gan y ffenestri wydr barugog er mwyn atal pobl rhag gweld cleifion wrth iddynt gael eu trin. Gyda'i gilydd, roedd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau preifatrwydd wrth i'r staff ryngweithio â'r cleifion.

Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff o ran diogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn**

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys digon o wybodaeth am y risgiau a'r manteision. Dywedodd y cleifion hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod yr apwyntiad a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y costau wedi cael eu nodi'n glir iddynt cyn y driniaeth a'u bod wedi cael arweiniad clir ar beth i'w wneud pe bai haint neu argyfwng. Ychwanegodd y cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl y driniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Gwelsom fod y system rheoli apwyntiadau a oedd ar waith yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn effeithiol. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn dilyn eu hapwyntiad. Dywedodd y staff wrthym mai tair neu bedair wythnos oedd yr amseroedd aros cyfartalog rhwng apwyntiadau. Roedd yr ymatebion i holiadur AGIC i gleifion yn gymysg pan wnaethom ofyn i'r cleifion pa mor hawdd oedd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd hanner y cleifion eu bod nhw wedi ei chael hi'n 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn' tra teimlai'r hanner arall 'nad oedd yn hawdd iawn' neu 'nad oedd yn hawdd o gwbl'. Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau'n cael eu trefnu o amgylch yr hyn a oedd ar gael i'r cleifion lle bynnag y bo'n bosibl, a gwnaethom nodi bod clinigydd newydd yn dechrau gyda'r practis yn ystod y misoedd nesaf a dywedodd y staff wrthym y byddai hyn yn lleihau'r amseroedd aros cyffredinol i gleifion.

Lle'r oedd apwyntiadau'n mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, byddai'r clinigwyr yn hysbysu'r dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion. Os oedd y staff yn gwybod am achosion o oedi ymlaen llaw, byddent yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn iddynt gyrraedd. Gwelsom fod y trefniadau hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion o oedi yn cael eu cyfleu'n brydlon, gydag apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig lle gofynnwyd amdanynt.

Gwelsom system frysennu dros y ffôn briodol yn cael ei defnyddio i flaenoriaethu cleifion y mae angen gofal brys arnynt. Roedd y practis yn neilltuo amser yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai'r un claf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt, a gwelsom fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Mynediad mewn Argyfwng y GIG. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn cefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio, lle y bo angen, i helpu'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Cawsom wybod y byddai'r dogfennau ar gael mewn fformatau eraill ar gais. Roedd ffurflenni hanes meddygol yn cael eu hanfon at gleifion yn electronig cyn eu hapwyntiad, ac roedd y rhai heb ddyfeisiau digidol yn cael copiau papur wyneb yn wyneb cyn eu hapwyntiad.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis wrthi'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Rhoddodd y staff wybod i ni fod y bwrdd iechyd yn helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith. Gwelsom hefyd fod y staff yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith a oedd yn annog y cleifion i siarad Cymraeg heb fod angen iddynt ofyn am aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg. Yn ystod ein harolygiad, clywsom aelodau o'r staff a'r cleifion yn siarad â'i gilydd yn Gymraeg sawl tro.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith fod y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cael ei gynnig iddynt drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn eu dewis iaith.

### Hawliau a chydardoldeb

Gwelsom fod hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion yn cael eu cynnal yn y practis. Roedd polisiau priodol ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amddiffyn hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol gyda'r nod o ddiogelu hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisiau oedd yn ymdrin â dim goddefgarwch o ran ymddygiad

ymosodol a thrais a pholisi aflonyddu ar waith er mwyn diogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Darparodd y staff enghreifftiau o addasiadau rhesymol a oedd wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer cleifion a chyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys trin cleifion yn eu cadeiriau olwyn a ramp ar gyfer mynediad yng nghefn y practis. Gwelsom hefyd fod hawliau'r cleifion yn cael eu cefnogi ymhellach drwy alluogi unigolion i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion. Esboniodd y practis sut roedd cleifion trawsryweddol wedi rhoi sylwadau cadarnhaol yn ddiweddar mewn perthynas â chlinigydd a oedd wedi bod yn gefnogol wrth eu trin yn ystod eu taith trawsnewid.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd y practis wedi'i leoli ar un llawr, gyda mynediad gwastad drwyddo a thair deintyddfa o faint addas. Roedd ystafell aros y practis o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a gwelsom fod y toiledau ar gyfer y staff a'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Roedd y practis i'w weld mewn cyflwr da, yn daclus yr olwg ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, bythefnos cyn ein harolygiad, rhoddodd y lleoliad wybod i ni am ollyngiad dŵr o ganlyniad i ddifrod storm. Roedd y gollyngiad hwn wedi rhoi un ddeintyddfa allan o ddefnydd ac wedi dinistrio stoc a oedd yn cael ei chadw yn eu storfa. Roedd atgyweiriadau dros dro wedi'u cwblhau, ond roedd y nifer llai o ddeintyddfeydd a'r gwaith ar ddod ar y to yn effeithio ar allu'r practis i weithredu yn ôl yr arfer. Er bod y problemau hyn yn tarfu ar weithrediadau o ddydd i ddydd, ni welsom dystiolaeth fod y difrod yn peryglu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Roedd amgylchedd y practis i'w weld wedi'i oleuo a'i awyru'n addas ac roedd y tymheredd yn synhwyrol. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a bod digon ohono i allu ymgymryd â phrosesau dihalogi effeithiol ar ôl ei ddefnyddio. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Roedd y cyfleusterau a'r cyfarpar clinigol a oedd yn cael eu defnyddio yn hybu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli argyfyngau. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, gosod gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Roedd asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch cyffredinol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ac roeddent yn addas.

Roedd mesurau diogelwch tân cynhwysfawr ar waith hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi diffoddwyr tân a chyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arddangos arwyddion tuag at yr allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gwybodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos yn amlwg.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cadarn ar waith i gynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r practis. Roedd y dogfennau y gwnaethom edrych arnynt yn nodi'n glir y prosesau yr oedd disgwyl i'r staff eu dilyn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod priodol o'r staff, ac roedd y gweithdrefnau hylendid dwylo a'r arwyddion yn addas. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd ac roedd yr asesiadau risg yn dogfennu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy'r bwrdd iechyd lleol, gyda'r manylion hyn ar gael yn hwylus i'r staff.

Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis 'yn lân iawn' neu 'yn eithaf glân'. Fodd bynnag, disgrifiodd un o'r ymatebwyr y lleoliad fel 'ddim yn lân iawn o gwbl'. Yn ystod yr arolygiad, roedd pob rhan o'r lleoliad y gwnaethom edrych arni'n cael ei chadw'n lân ac nid oedd gennym unrhyw bryderon i gyd-fynd â'r rhai a godwyd gan un o'r ymatebwyr. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau yn gyson.

Gwelsom fod cyfarpar ac amgylchedd y practis yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchod fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer aml dro yn yr ystafell ddihalogi yn gadarn. Gwelsom gofnodion o wiriadau a phrofion dyddiol o gylchredau'r awtoclaf yn ogystal ag amserlen o waith cynnal a chadw arfaethedig yn unol â'r canllawiau cyfredol. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir ar gyfer dihalogi cyfarpar. Roedd yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir dan gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod y system ar gyfer codi a chario, storio, a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gadarn. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, yn y pedwar cofnod y gwnaethom edrych arnynt lle roedd gwrthfotigau wedi'u presgripsiynu, ni welsom gyfiawnhad clir dros eu defnydd. Yn ogystal, roedd tri o'r pedwar cofnod yn dangos bod y gwrthfotigau wedi'u presgripsiynu dros y ffôn heb i'r clinigydd weld y claf. Er y caiff presgripsiynu rhithwir ei ganiatáu o dan ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dim ond ar ôl i bob opsiwn ymarferol arall gael ei ddefnyddio a bod y dull er lles pennaf y claf y dylai hyn ddigwydd. Ni welsom gyfiawnhad yng nghofnodion y cleifion i gefnogi'r penderfyniad i bresgripsiynu yn yr achosion hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cadarn a chywir yn cael eu cynnal ar gyfer pob meddyginiaeth a bresgripsiynir gan glinigwyr a rhoi sicrwydd bod cyfiawnhad clinigol clir dros bresgripsiynu gwrthfotigau, sy'n cynnwys y rhesymeg dros unrhyw bresgripsiynu o bell neu dros y ffôn, yn unol â'r canllawiau proffesiynol perthnasol.

Gwelsom drefniadau boddhaol i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod gan bob aelod o'r staff gymwysterau adfywio cardiopwlmonaidd cyfredol a bod nifer addas o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n gywir, ac roedd pob aelod o'r staff wedi ymrestru i gael hyfforddiant i'w defnyddio. Yn ystod ein hadolygiad o'r cyfarpar brys, gwnaethom gadarnhau bod pob eitem yn bresennol, ar gael yn hwylus ac o fewn y dyddiad defnyddio. Gwnaethom hefyd nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, a oedd yn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a'u bod ar gael i'w defnyddio ar unwaith mewn argyfwng.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Roedd trefniadau diogelu cyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion fel ei gilydd. Roedd y gweithdrefnau yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn nodi arweinydd diogelu dynodedig clir ac yn cynnwys manylion cyswllt y gwasanaethau cymorth lleol. Rhannwyd diweddariadau i bolisiâu a phrosesau diogelu gyda'r staff drwy hyfforddiant, cymorth tîm corfforaethol y practis a gwybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Gwnaethom nodi bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol ar gyfer plant ac oedolion.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol a'u bod yn addas at eu diben bwriadedig. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom gyfarpar yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn briodol i gefnogi'r broses o ddarparu gofal effeithiol. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus ac yn gymwys wrth ddefnyddio'r cyfarpar ac roedd cofnodion y staff yn cadarnhau bod pob aelod o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd trefniadau sefydledig ar gyfer gwasanaethu cyfarpar, ac roedd systemau ar waith i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau gyda chyfarpar neu fethiannau system mewn modd amserol.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn syml i'w lywio. Roedd y rheolau lleol ar gael yn hwylus mewn ardaloedd clinigol. Gwelsom y clinigwyr yn dogfennu trafodaethau â chleifion ynghylch y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chysylltiad ag ymbelydredd yn gyson. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol i'w rôl o ran dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Ar y cyfan, roedd

rheolaeth y practis o gyfarpar radiograffig yn addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gan y practis system ar waith ar hyn o bryd i archwilio'r platiau ffosffor yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Gallai platiau ffosffor heb eu monitro arwain at ddefnyddio platiau a allai fod wedi'u difrodi ac effeithio ar ansawdd diagnostig pelydrau-X.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod platiau ffosffor yn cael eu monitro'n briodol.**

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Gwnaeth ein hadolygiad o gofnodion cleifion nodi nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella, a oedd yn golygu na allem fod yn sicr bod triniaethau bob amser yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, neu yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwelliannau oedd yn ofynnol i gofnodion y cleifion yn rhan nesaf yr adroddiad.

Roedd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent yn gwybod pryd i ofyn am gyngor proffesiynol pellach, pan fo angen. Roedd trefniadau addas ar waith i ddogfennu dealltwriaeth a chydysniad cleifion i driniaethau llawfeddygol. Gwelsom fod rhestrau gwirio clinigol yn cael eu defnyddio a'u dylunio er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn system ddigidol ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd pob cofnod y gwnaethom edrych arno yn nodi dynodyddion cleifion, y rheswm dros fynychu, siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau ychwanegol o'r geg a hanesion meddygol cychwynnol ac wedi'u diweddarau. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ar goll o rai o'r cofnodion, sy'n golygu nad oedd modd cael darlun cynhwysfawr o'r gofal a'r triniaethau a gafwyd. Gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Ni welsom fod hanes deintyddol blaenorol wedi'i gofnodi mewn chwech o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd tri chofnod yn cynnwys gwybodaeth am hanes cymdeithasol fel defnyddio alcohol neu dybaco, ac ni chofnodwyd y cyngor a roddwyd ar hylendid y geg a deiet.

- Er bod hanesion meddygol wedi'u diweddarau wedi'u cofnodi, ni welsom dystiolaeth bod y deintydd wedi edrych ar y rhain mewn saith cofnod.
- Nid oedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi yn yr un o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt
- Cofnodwyd y siartiau sylfaenol llawn, fodd bynnag, ni chafodd y siartiau eu diweddarau ar ôl pob cwrs o driniaeth ar unrhyw un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.
- Roedd yr archwiliad periodontol sylfaenol ar goll o un cofnod ac ni nodwyd yr archwiliad wedi'i ddiweddarau mewn pedwar cofnod
- Roedd gwiriadau sgrinio am ganser o feinwe meddal, y tu allan a'r tu mewn i'r geg ar goll o un o'r cofnodion a welwyd.
- Roedd tystiolaeth o gynllunio triniaethau ar goll o ddau gofnod ac ni chofnodwyd y gwahanol opsiynau a drafodwyd
- Roedd nodiadau ynghylch cydsyniad ar sail gwybodaeth ar goll o ddau gofnod
- Dim ond mewn un o'r saith cofnod perthnasol y cafodd awdurdodiadau radiograff eu nodi
- Dim ond mewn tri o'r saith cofnod y gwnaethom edrych arnynt y cafodd canfyddiadau clinigol radiograffau a graddio ansawdd eu cofnodi.

Mae hepgoriadau o gofnodion cleifion yn digwydd ar adegau. Fodd bynnag, awgrymodd ein hadolygiad yn y practis hwn fod bylchau yn y dogfennau a allai gyfaddawdu parhad gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Nod cofnodion cleifion yw darparu cofnod ffurfiol o symptomau, hanes meddygol, triniaethau ac archwiliadau eraill a gyflawnir ar glaf. Mae cofnodion anghyflawn yn codi pryderon cyfreithiol a moesegol i ymarferwyr ac yn peri risg o niwed y gellir ei osgoi i gleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.**

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n diwallu anghenion eu cleifion mewn lleoliad addas. Roedd y cleifion yn datblygu drwy lwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol ac roedd y clinigwyr yn eu holrhain mewn modd amserol. Gwelsom sut roedd apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd addas o sgiliau.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli sefydledig ar waith a oedd yn cefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol o ddydd i ddydd. Manteisiodd y practis ar gefnogaeth corff corfforaethol ar gyfer materion llywodraethu a chydymffurfiaeth cyffredinol. Dywedodd aelodau tîm rheoli'r practis wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn effeithiol. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy yn y practis, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd atynt i drafod newidiadau neu welliannau posibl. Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn arferol, ond dim ond un enghraifft o gofnodion cyfarfodydd tîm ffurfiol a welsom ar y ffeil o fis Tachwedd 2025. Mae cofnodion cyfarfodydd yn gofnod pwysig o'r trafodaethau rhwng y tîm deintyddol y byddai aelodau absennol o'r staff yn methu cael eu diweddarau yn eu cylch.

### Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau y cedwir cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd.

Roedd system archwilio addas ar waith i nodi, dogfennu a rheoli risgiau, problemau ac unrhyw gamau lliniaru cysylltiedig. Rhannodd rheolwr y practis hysbysiadau diogelwch gyda'r staff naill ai drwy e-bost neu cafodd unrhyw hysbysiadau perthnasol eu harddangos.

Roedd pob un o bolisiau'r practis ar gael ar system ar-lein dan reolaeth gorfforaethol, a oedd yn golygu eu bod yn hawdd i'r staff ddod o hyd iddynt a'u darllen. Roedd y polisiau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod y staff yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau mewn ffordd effeithiol drwy e-bost a thrwy'r system ar-lein.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom yn dangos eu bod yn amlwg yn cefnogi ei gilydd. Roedd rheolwr y practis yn goruchwyllo gweithdrefnau sefydlu ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y rhain yn gynhwysfawr ac wedi'u hen sefydlu. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio bob amser. Roedd yr arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol, ac amlinellodd

rheolwyr broses briodol ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch perfformiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion personél 6 o'r 12 o aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi gan y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestrïadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu a gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwardd. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond un gwiriad geirda cyn cyflogi oedd ar ffeil pedwar aelod o'r staff ac nid oedd unrhyw wiriadau ar ffeil dau aelod o staff hirsefydlog arall. Roedd yr hepgoriadau hyn yn golygu bod risg y gallai'r cleifion ddod i gysylltiad â staff lle nad oedd gwiriadau o'u cymeriad wedi'u dogfennu. Gwnaethom nodi bod gwiriadau'r holl aelodau o staff newydd eu penodi wedi'u cofnodi. Cynghorwyd y practis i geisio cael gwiriadau geirda neu i gynnal asesiad risg o'r wybodaeth goll.

Roedd cofnodion y staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Roedd y staff yn cael digon o amser i gwblhau eu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym eu bod hefyd yn cael eu cefnogi i ymgymryd â datblygiad ychwanegol penodol i'r rôl, a adlewyrchwyd yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd gan reolwr y practis system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn cynnig canllawiau clir i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod systemau effeithiol ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa a oedd yn galluogi'r cleifion i adael sylwadau ac roedd adolygiadau ar-lein yn cael eu hannog hefyd. Roedd Codau Ymateb Sydyn (QR) ar gael yn y dderbynfa ac ar gardiau apwyntiadau er mwyn i gleifion roi adborth ar-lein. Gwelsom fod yr awgrymiadau'n cael eu hadolygu'n wythnosol, wrth i gyflwyniadau ar-lein gael eu gwirio wrth iddynt ddod i law tîm rheoli'r practis. Roedd gan y practis drefniadau addas i rannu ei ymatebion i'r adborth gan gleifion a rhoi cyhoeddusrwydd iddo.

Roedd y polisi cwynion yn cyfateb i weithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn nodi unigolyn penodol i'r cleifion sy'n dymuno mynegi pryderon. Roedd unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr a oedd yn cael ei gadw wrth y dderbynfa. Roedd y polisi cwynion yn nodi'r broses ar gyfer uwchgyfeirio cwynion, gan gynnwys darparu manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais.

Gwnaethom edrych ar y cwynion a ddaeth i law'r practis, ac nid oeddent yn dangos unrhyw themâu cyffredin yr oedd y practis yn gallu eu hosgoi neu ymateb iddynt. Ni wnaeth ein hadolygiad o'r cwynion a dderbyniwyd gan y practis ddangos unrhyw themâu cyffredin, ac ymatebwyd yn briodol i bob cwyn.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u rhwymedigaethau proffesiynol o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi priodol ar waith a bod hyfforddiant perthnasol ar gael i'r staff. Er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd i ni eu gweld, cawsom sicrwydd y byddai'r broses a oedd ar waith yn rheoli'r rhain yn unol â'r canllawiau gofynnol.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, ansawdd radiograffig, hylendid dwylo yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gellid gwella'r archwiliad a'r rhaglen hyfforddiant ar roi'r gorau i smygu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei raglen o archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.**

Roedd y practis wedi ceisio cwblhau'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn 2025 fel rhan o'i ymdrechion i helpu i ysgogi gwelliant parhaus. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym eu bod wedi bod yn ei chael hi'n anodd cael ymateb gan ddarparwr yr archwiliad, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Gwnaethom annog y practis i barhau i fynd ati i ymgysylltu fel y gellid cwblhau'r adnodd archwilio.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys y feddygfa a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg (Rhydaman)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg (Rhydaman)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn y pedwar cofnod y gwnaethom edrych arnynt lle roedd gwrthfotigau wedi'u presgripsiynu, ni welsom gyfiawnhad clir dros y defnydd ohonynt. Yn ogystal, roedd tri o'r pedwar cofnod yn dangos bod y gwrthfotigau wedi'u presgripsiynu dros y ffôn heb i'r clinigydd weld y claf. Ni welsom gyfiawnhad yng nghofnodion y cleifion i gefnogi'r penderfyniad i bresgripsiynu yn yr achosion hyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cadarn a chywir yn cael eu cynnal ar gyfer pob meddyginiaeth a bresgripsiynir gan glinigwyr a rhoi sicrwydd bod cyfiawnhad clinigol clir dros bresgripsiynu gwrthfotigau, sy'n cynnwys y rhesymeg dros unrhyw bresgripsiynu o bell	Rheoliad 13 (4) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae cwmpflen newydd wedi'i hychwanegu at y feddalwedd ddeintyddol i gofnodi'r gwrthfotigau a'r cyfiawnhad a roddwyd, mae'r ffolder yn y cwpwrdd meddyginiaethau yn ategu hyn yn ogystal â'r broses cyfrif stoc. Mae pob Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol wedi cael gwybod am hyn.	Lisa Price	Wedi'i gwblhau

		neu dros y ffôn, yn unol â'r canllawiau proffesiynol perthnasol.				
2.	Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis system ar waith ar hyn o bryd i archwilio'r platiau ffosffor yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Gallai platiau ffosffor heb eu monitro arwain at ddefnyddio platiau a allai fod wedi'u difrodi ac effeithio ar ansawdd diagnostig pelydrau-X.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod platiau ffosffor yn cael eu monitro'n briodol.	Rheoliad 13 (2)	Mae pob plât ffosffor bellach yn cael ei rifo a'i labelu'n glir. Mae gan nyrsys restr wirio newydd i sicrhau monitro ac archwilio clir bob dydd.	Lisa Price	Wedi'i gwblhau
3.	Roedd gwybodaeth ar goll o rai o'r cofnodion a welsom, sy'n golygu nad oedd modd cael darlun cynhwysfawr o'r gofal a'r triniaethau a gafwyd. Gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni welsom fod hanes deintyddol blaenorol wedi'i gofnodi mewn chwech o'r</li> </ul>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.	Rheoliad 20 (1)	Mae'r feddalwedd newydd wedi'i diweddarau a chwymplen wedi'i haddasu er mwyn gallu ychwanegu hanes deintyddol blaenorol.	Lisa Price	Wedi'i gwblhau

<p>cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd tri chofnod yn cynnwys gwybodaeth am hanes cymdeithasol fel defnyddio alcohol neu dybaco, ac ni chofnodwyd y cyngor a roddwyd ar hylendid y geg a deiet.</li> <li>• Er bod hanesion meddygol wedi'u diweddarau wedi'u cofnodi, ni welsom dystiolaeth bod y deintydd wedi edrych ar y rhain mewn saith cofnod.</li> <li>• Nid oedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi yn yr un o'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt</li> <li>• Cofnodwyd y siartiau sylfaenol llawn, fodd bynnag, ni chafodd y siartiau eu diweddarau ar ôl pob cwrs o driniaeth ar unrhyw un o'r</li> </ul>			<p>Hanes cymdeithasol gydag alcohol a thybaco, cyngor iechyd galwedigaethol.</p> <p>Caiff ffurflenni hanes meddygol eu hanfon at gleifion y diwrnod blaenorol drwy neges destun sy'n diweddarau cofnod y claf yn awtomatig, sy'n cael ei wirio gan bob deintydd am unrhyw newidiadau meddygol.</p> <p>Mae dewis iaith ar yr hanes meddygol sy'n cael ei fonitro a'i weithredu.</p> <p>Ar ôl siarad â Dentally ar ôl gorffen COT, caiff y nodiadau eu diweddarau'n awtomatig.</p>		
--	--	--	--	--	--

<p>cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd yr archwiliad periodontol sylfaenol ar goll o un cofnod ac ni nodwyd yr archwiliad wedi'i ddiweddarau mewn pedwar cofnod</li> <li>• Roedd gwiriadau sgrinio am ganser o feinwe meddal, y tu allan a'r tu mewn i'r geg ar goll o un o'r cofnodion a welwyd.</li> <li>• Roedd tystiolaeth o gynllunio triniaethau ar goll o ddau gofnod ac ni chofnodwyd y gwahanol opsiynau a drafodwyd</li> <li>• Roedd nodiadau ynghylch cydsyniad ar sail gwybodaeth ar goll o ddau gofnod</li> <li>• Dim ond mewn un o'r saith cofnod perthnasol y cafodd awdurdodiadau radiograff eu nodi</li> </ul>			<p>Dywedwyd wrth bob clinigydd fod yn rhaid gwneud Archwiliad Periodontol Sylfaenol ym mhob apwyntiad archwilio a'i fonitro</p> <p>Cynghorwyd pob clinigydd bod yn rhaid cofnodi'r profion sgrinio am ganser y geg yn y gwymplen ar feddalwedd Dentally.</p> <p>Mae pob clinigydd wedi cael gwybod am bwysigrwydd cynllunio triniaethau, mae padiau 'Clini' newydd wedi'u prynu er mwyn i'r holl gleifion allu eu gweld a'u llofnodi ar ddiwrnod cynllunio'r driniaeth.</p> <p>Cwymplen cydsynio wedi'i hychwanegu</p>		
---	--	--	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond mewn tri o'r saith cofnod y gwnaethom edrych arnynt y cafodd canfyddiadau clinigol radiograffau a graddio ansawdd eu cofnodi.</li> </ul>			Ffurflenni awdurdodi radiograff wedi'u diweddarau gan gynnwys graddio.		
4.	Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn arferol, ond dim ond un enghraifft o gofnodion cyfarfodydd tîm ffurfiol a welsom ar y ffeil o fis Tachwedd 2025. Mae cofnodion cyfarfodydd yn gofnod pwysig o'r trafodaethau rhwng y tîm deintyddol y byddai aelodau absennol o'r staff yn methu cael eu diweddarau yn eu cylch.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau y cedwir cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd.	Rheoliad 16	Caiff cyfarfodydd staff eu cofnodi a'u lanlwytho i'r system Adnoddau Dynol	Lisa Price	Wedi'i gwblhau
5.	Gwelsom y gellid gwella'r archwiliad a'r rhaglen hyfforddiant ar roi'r gorau i smygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei raglen o archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.	Rheoliad 16	Dylai un aelod o'r staff gofrestru ar gyfer archwiliad rhoi'r gorau i smygu AaGIC	Lisa Price	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lisa Price

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 14/04/2026